Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor



# *Proffil Ardal Weinidogaeth*

# Bro Padrig

# *Croeso*





Fel Esgobion yn esgobaeth Bangor gobeithiwn y bydd y wybodaeth yn y proffil hwn yn ddefnyddiol ac yn ddeniadol. Am ddegawd a mwy rydym wedi canolbwyntio ein holl egni gweinidogol trwy ein Hardaloedd Gweinidogaeth yn argyhoeddedig y gallwn wneud mwy gyda'n gilydd ac yn well, nag y gallwn ar wahân. Ein gobeithion i bawb sy'n gwasanaethu gyda ni yw bod y cam hwn o ffydd yn arwain at gymunedau eglwysig a disgyblion ffyniannus sy'n ymhyfrydu eu bod yn perthyn i deulu Bangor.

Mae'r proffil hwn yn cynnwys elfennau dynol – daearyddiaeth ffisegol, natur y cymunedau a'r eglwysi sy'n eu gwasanaethu, ffactorau iaith a diwylliannol ochr yn ochr â'r cyfleoedd ysbrydol a'r ddeinameg o fewn yr Ardal Weinidogaeth. Credwn ei fod yn adlewyrchiad gonest a gobeithiol o'r realiti gan eu bod yn cael eu profi gan y rhai sy'n byw ynddynt. Os byddwch yn dewis teithio gyda ni, gallwn eich sicrhau o'n cefnogaeth gref a'n gweddïau ar gyfer eich dyfodol pe baech yn gweinidogaethu mewn mannau eraill.

Boed i ras a heddwch Duw fod gyda chi yn eich dealltwriaeth,

+Andrew Cambrensis +David Enlli

# *Ficer ac Arweinydd Ardal Weinidogaeth*

Rydym yn chwilio am offeiriad i arwain a gwasanaethu yn Ardal Weinidogaeth Bro Padrig yn Esgobaeth Bangor. Mae Bro Padrig yn cynnwys y rhan helaeth o gornel ogleddol a gogledd-orllewinol Ynys Môn ac mae'n gwasanaethu pentrefi Cemaes a Llanfechell, Llanfaethlu a Llanfair-yng-Nghornwy, a phentrefannau cyfagos (poblogaeth o tua 3600, cyfrifiad 2021).

Rydym yn chwilio am rywun:

- sy'n ymrwymedig i weithio gyda'r Cyngor Ardal Weinidogaeth i gynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol o ran cenhadaeth, eiddo a chyllid.

- sy'n ymroddedig i gydweithio ac yn barod i ddirprwyo a rhannu cyfrifoldeb am ddatblygu cenhadaeth a gweinidogaeth, gan annog galwedigaeth unigol ac ar y cyd.

- sy'n gallu archwilio ymhellach gyda ni, gyda dychymyg a chreadigrwydd, yr arfer rydym wedi'i gyflwyno o ddefnydd ein hadeiladau'n hyblyg ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth, gan archwilio mathau newydd o addoli ochr yn ochr â'r ffurfiau traddodiadol ar addoli rydym yn eu trysori.

- sy'n frwdfrydig ynghylch datblygu ein hymwneud â'r gymdeithas a'r gymuned a'n ffordd o ymgysylltu ag anghenion y byd a'r greadigaeth.

- sy'n barod i ymgysylltu'n ddwys â'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r swydd yn addas ar gyfer siaradwr Cymraeg neu ddysgwr Cymraeg – fel esgobaeth rydym yn gallu rhoi cefnogaeth i glerigwyr ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

# *Esgobaeth Bangor*

Rydym yn gymuned Gristnogol fywiog gyda hanes cyfoethog sy'n dyddio'n ôl i'r bumed ganrif, wedi'i gwreiddio yn nhraddodiadau seintiau Celtaidd cynnar er enghraifft Deiniol, Cybi, Seiriol, Tudwen, Madryn, ac eraill. Mae'r seintiau hyn wedi'u hanfarwoli yn enwau ein heglwysi, ein pentrefi a'n trefi.

Er bod ein cenhadaeth yn parhau i fod yn gadarn dros fileniwm a hanner, mae ein cyd-destun cyfoes yn cyflwyno cyfleoedd newydd a heriol. Mewn ymateb, rydym wedi cofleidio gweledigaeth o ddilyn Iesu gyda brwdfrydedd o'r newydd a dulliau arloesol. Rydym wedi sefydlu tair egwyddor allweddol, tair blaenoriaeth, tri chynllun, a thri llwyfan newydd i arwain ein taith.

Darllenwch fwy am y rhain ar ein gwefan.

Mae ein hymrwymiad yn troi o amgylch tair egwyddor weledigaethol y credwn y dylent ddiffinio ein bywyd cymunedol:

- Addoli Duw.
- Tyfu'r Eglwys.
- Caru'r byd.

Rydym yn eich croesawu i ymuno â ni yn y genhadaeth drawsnewidiol hon, wrth i ni wneud ein ffordd trwy heriau ein hamser gyda ffydd, ymroddiad, ac ymrwymiad i addoli, twf a chariad.



Esgobaeth Bangor | BBC Pilgrimage 2024



# Cyflwyno Bro Padrig

Mae Ardal Weinidogaeth Bro Padrig wedi'i lleoli yng Ngogledd Ynys Môn, gyda'i golygfeydd arfordirol trawiadol a chefn gwlad gwyrdd tonnog. Mae'n cynnwys un o rannau mwyaf dramatig Llwybr Arfordir Môn, yn ogystal â meini hirion cynhanesyddol, bryngaer o'r Oes Haearn, traethau gwyliau poblogaidd a childraethau anghysbell. Ymhellach i mewn i'r tir, mae'r ardal yn frith o lonydd tawel yn croesi ei gilydd a hyd yn oed dau fynydd (bach), sy'n cynnig cyfleoedd rhedeg a beicio gwych.

Pentrefi Cemaes (y pentref mwyaf gogleddol yng Nghymru) a Llanfechell, ac yna Llanfaethlu a Llanfair-yng-Nghornwy yw'r canolfannau poblogaeth, gyda nifer o bentrefannau a llawer o ffermydd gwasgaredig. Er gwaethaf eu maint cymharol fach, mae gan y cymunedau amrywiaeth eang o glybiau a grwpiau rheolaidd, o foreau coffi a sgyrsiau hanes lleol i sesiynau cerddoriaeth mewn tafarn, campfa o'r radd flaenaf (yng Nghemaes) a grŵp nofio awyr agored.

Mae pedair siop bentref wedi’u stocio’n llawn, archfarchnadoedd yn Amlwch (i’r dwyrain) a Chaergybi (i’r de-orllewin), a nifer o ddewisiadau ar gyfer prydau o fwyd mewn tafarn neu fwyty.

Ar hyn o bryd, mae pedair ysgol gynradd gyda phlant yn teithio i Amlwch, Caergybi neu Fodedern i fynd i’r ysgol uwchradd. Roedd gorsaf bŵer Wylfa gynt yn arfer cyflogi llawer o bobl leol ond, erbyn hyn, mae’r rhan fwyaf yn cymudo neu’n gweithio o leiaf yn rhannol o gartref. Mae yna ddiwydiant pysgota gweithredol yng Nghemaes o hyd ac mae cyflenwr pysgod cregyn byd-eang ym Mhorth Swtan. Mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn nodweddiadol o ardal wledig ond mae yna wasanaeth trên uniongyrchol o Gaergybi i Lundain. Mae meddygfa a deintydd yng Nghemaes hefyd.
Er ei bod yn gyrchfan wyliau sefydledig, mae ardal Bro Padrig yn fwy tawel yn yr haf nag arfordir gorllewinol Ynys Môn (Bae Trearddur, Rhosneigr).

Mae teuluoedd lleol hirsefydlog yn cymysgu’n hapus gyda newydd-ddyfodiaid, wrth gynnal balchder yn yr iaith Gymraeg a threftadaeth Cymru.

> “
> Mae'n gymuned hyfryd. ‘Dwi'n gadael yr eglwys bob amser yn teimlo'n falch.



# *Church Life*

Mae saith eglwys Bro Padrig wedi bod yn gweithredu patrwm cynaliadwy o wasanaethau, gyda dwy gynulleidfa wythnosol (Sant Mechell, Llanfechell, 9.30 a.m.; Sant Padrig, Cemaes 11a.m.), dwy gynulleidfa fisol (Sant Maethlu, Llanfaethlu, 2.30 p.m.; Santes Fair, Llanfair-yng-Nghornwy 11 a.m.). Mae pob gwasanaeth yn ddwyieithog; mae'r rhan fwyaf ohonynt yn Gymun Bendigaid (er mai Gweddi Boreol wedi'i harwain gan weinidog lleyg yw'r cynulliad misol yn Llanfair-yng-Nghornwy ar hyn o bryd). Mae Llanfair-yng-Nghornwy yn adeilad rhestredig Gradd I, ac mae Llanfechell a Llanfaethlu yn adeiladau rhestredig Gradd II*.

Mae gwasanaeth Cymun byrrach pob dydd Mercher yng Nghemaes hefyd, sy'n cynnwys y gweddïau a adewir yn eglwysi 'betws' (gweler isod). Yn aml, caiff lluniaeth ei weini ar ôl y gwasanaethau yng Nghemaes, gan ddefnyddio ystafell y plwyf, sydd â thoiled a chegin fach. Yma hefyd mae grwpiau trafod ac astudio yn cyfarfod, gyda'r cyfle i dyfu mewn ffydd trwy ddysgu a thrafod gyda'i gilydd. Mae'r eglwys ei hun wedi cael ei haildrefnu'n ddiweddar, gan roi hyblygrwydd, gyda chadeiriau pentyradwy yn lle corau.

Mae pob un o'r tair eglwys leiaf (Llanbadrig, Llanrhwydrys, Llanfflewin) wedi'u dynodi'n 'fetws' neu 'dŷ gweddi'. Maent ar agor 24/7 i ymwelwyr a phererinion ddod yno i weddïo, i adael ceisiadau gweddi neu i fwynhau'r tawelwch. Mae hanner awr o weddi ddistaw am 9.30 y bore ar ddydd Mawrth yn Llanbadrig (Betws y môr), sydd hefyd yn cynnal dau wasanaeth carolau poblogaidd a digwyddiadau arbennig achlysurol (Dydd Sant Padrig, Sul y Môr ac ati).



Mae gan y ddwy eglwys arall chwe gwasanaeth y flwyddyn, rhwng y Pasg a'r Cynhaeaf (Llanrhwydrys (Betws y maes): Dydd Mercher 4 p.m.: Llanfflewin (Betws y mynydd): Dydd Sul 5 p.m.). Adeiladau rhestredig Gradd II* neu Radd II ydynt, pob un â'i hanes a'i gysylltiadau diddorol ei hun.



Mae yna dîm o arweinwyr addoli wedi'u comisiynu sy'n tyfu a rota ar gyfer darllen o'r Beibl ac ymbiliau. Mae organyddion ar gael ar gyfer gwasanaethau Gwyliau ond fel arall mae cyfeiliant cerddorol wedi bod drwy CD neu Spotify! Mae gwasanaethau a digwyddiadau yn cael eu hysbysebu'n lleol a hefyd drwy dudalen Facebook Bro Padrig sydd â bron i 700 o ddilynwyr. Mae gwefan (bropadrig.com) yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am yr eglwysi a'r tîm gweinidogaeth.

Mae cyllid Bro Padrig yn gymedrol ond yn gadarn. Mae cyfraniad Cronfa Gweinidogaeth yr Esgob yn cael ei dalu'n llawn bob blwyddyn trwy gyfuniad o roddion, gweithgareddau codi arian a Diwrnod Rhodd blynyddol y Grawys. Mae posteri gyda chodau QR ar gyfer rhoddion yn cael eu harddangos ym mhob eglwys; mae gan Lanfechell a Llanbadrig beiriannau darllen cardiau. Er bod gan rai o'r adeiladau eglwys fynediad at fuddsoddiadau hanesyddol a ddelir gan yr Eglwys yng Nghymru, mae angen cyllid grant ar eraill ar gyfer unrhyw waith mawr.



> *Dwi'n newydd i'r ardal ac wedi cael croeso mawr gan gymaint o bobl. Mae'n ardal wych*

# *Posibiliadau a Chyfleoedd*



Mae cynulleidfaoedd Bro Padrig yn ceisio anogaeth barhaus i barhau i dyfu mewn ffydd a gwahodd eraill i 'ddod i weld'. Mae llawer o aelodau'n weithgar mewn gwahanol rolau cymunedol ac mae nifer dda ohonynt yn falch o siarad am eu ffydd ac am fynd i'r eglwys lle bo hynny'n briodol.

Mae cyfarfod i gymdeithasu'n anffurfiol (ar wahân i gwrdd ar gyfer addoli a chodi arian) yn flaenoriaeth, a fynegwyd yn fwyaf diweddar mewn amseroedd coffi ar ôl gwasanaethau dydd Mercher a dydd Sul yng Nghemaes.

Mae dymuniadau wedi'u mynegi i archwilio arddulliau mwy anffurfiol o addoli a chyfleoedd ar gyfer ffurfiau creadigol ar weddïo; ar hyn o bryd, gellir gwneud hynny trwy ddefnyddio llyfryn newydd Y Foreol Weddi, a thrwy'r ymbiliau ar foreau Mercher yng Nghemaes.

Gyda hunaniaeth Llanbadrig fel 'betws' wedi'i hen sefydlu, mae yna gyfleoedd yn Llanfflewin a Llanrhwydrys ar gyfer gwaith pellach i ddatblygu amgylchedd croesawgar i ymwelwyr, gan gynnwys cynnig 'gorsafoedd gweddi' penodol ar gyfer myfyrio'n dawel. Mae gweinidogaeth lletygarwch yr adeiladau eglwys eraill yn barod i gael ei datblygu ymhellach, yn enwedig o ran oriau agor hirach lle bo hynny'n bosibl. Mae lle i ddatblygu diddordeb mewn pererindod, gan ddefnyddio hanes cyfoethog yr ardal, gan gynnwys ffynhonnau cysegredig.



Byddai unig adeilad rhestredig Gradd I Bro Padrig, y Santes Fair, Llanfair-yng-Nghornwy, yn elwa ar brosiect adnewyddu mawr yn cynnwys cyllid grant. Mae gan yr eglwys gysylltiadau hanes lleol pwysig ac mae ar agor 24/7 i ymwelwyr, sy'n arwain at fwy o ddiddordeb ac ymwelwyr. Er ei bod yn boblogaidd ar gyfer 'digwyddiadau bywyd' a gwasanaethau gwyliau, mae'r gynulleidfa reolaidd yn fach a byddai mwy o fewnbwn gan glerigwyr yn fuddiol, er y byddai hyn yn gofyn am newid o ran amseroedd y gwasanaethau.

Mae'r gynulleidfa yn Eglwys Llanfaethlu wedi amrywio ers i addoli ailgychwyn ar ôl y pandemig. Mae gwasanaethau'n cael eu hysbysebu yn y bore coffi cymunedol wythnosol (ac mae'r eglwys ar agor yn wythnosol ar gyfer ymweld â hi a gweddïo). Mae'r adeilad wedi cael ei ailweirio fel bod goleuadau, ond nid oes system wresogi newydd.



> *Dwi'n Gristion ymroddedig. Mae fy ffydd yn werth y byd i mi. Mi fasa ni wrth ein bodd yn croesawu Arweinydd Ardal Weinidogaeth i'n cymuned cyfeillgar a chroesawgar.*



Mae rhywfaint o ddiddordeb wedi bod mewn 'Eco Eglwys' ym Mro Padrig, er bod hwnnw ar ei gamau cynnar. Gallai'r naw mynwent (sy'n ymddangos yn nhaflen ymwelwyr newydd Bro Padrig) gael eu rheoli'n fwy gweithredol ar gyfer bioamrywiaeth, menter a allai ddenu pobl eraill i helpu.

Gallai mwy o sylw gael ei roi i gefnogi gwaith a thystio Cristnogol ledled y byd; ar ôl cael rhywfaint o broffil, mae Open Doors ac A Rocha yn ddwy ddolen bosibl.

Gwaith gydag Ysgolion: mae cyswllt rheolaidd rhwng Ysgol Gymuned Llanfechell a'r eglwys leol ond mae cysylltiadau ag Ysgol Gynradd Cemaes yn fwy petrus ac ychydig iawn o gysylltiad sydd ag Ysgol Rhyd y Llan (Llanfaethlu). Mae'r ysgol leiaf, Carreglefn, wedi croesawu ymweliadau gan glerigwyr yn achlysurol.

Mae yna gyfrif Ysgol Sul yn Eglwys Llanfechell o hyd, sydd wedi cael ei ddefnyddio i brynu llyfrynnau'r Scripture Union ar gyfer y rhai sy'n gadael Blwyddyn 6 ym mhob un o'r pedair ysgol, a chanhwyllau Adfent ar gyfer pob disgybl yn 2020.

O ran cyllid, mae angen canolbwyntio'n barhaus ar roi realistig ac effeithlon o ran treth, yn ogystal â chodi arian, fel bod cronfeydd arian wrth gefn yn cael eu cronni, a biliau a Chronfa Gweinidogaeth yr Esgob yn cael eu talu. Denodd arddangosfa 'Trysorau Bro Padrig' yn Eglwys Cemaes dros ŵyl y banc mis Awst 2023 lawer o ddiddordeb ymhlith pobl leol ac ymwelwyr a gallai fod yn sail ar gyfer digwyddiadau tebyg.



# *Y Ficerdy*

Wedi'i leoli i lawr lôn heibio ysgol y pentref, taith fer ar droed o Stryd Fawr Cemaes, cafodd y ficerdy ei adeiladu fel 'eco-dŷ' tua 15 mlynedd yn ôl gyda phaneli solar ac mae pwmp gwres ffynhonnell aer wedi'i osod yn ddiweddar.

Mae yna gegin/ystafell fwyta fawr, gyda drysau'n agor allan i'r lawnt gefn, ynghyd â thair ystafell ymolchi (un en-suite) a phedair ystafell wely. Mae dwy ystafell lai lawr y grisiau wedi cael eu defnyddio fel ystafelloedd astudio, ond mae opsiwn hefyd i'w defnyddio fel ystafelloedd gwely. Mae'r lolfa ar y llawr cyntaf yn cynnig golygfeydd panoramig dros gefn gwlad, a gellir gweld un o ddiwydiannau diweddaraf Ynys Môn: fferm wynt!

Mae gan yr ardd, sydd wedi'i rheoli'n rhannol gan ddilyn egwyddorion 'dad-ddofi', berllan fach gyda chwpl o welyau plannu uchel (gan gynnwys mefus), a lawnt fawr wedi'i ffinio gan nifer o goed cynhenid ifanc a glaswellt y ddôl. Mae yna sied ganolig a lle parcio ar gyfer o leiaf dri char hefyd. Mae llwybrau troed yn mynd heibio'r tŷ i Gemaes a Llanfechell ac mae'r cae pêl-droed lleol gyferbyn.

# O Ddiddordeb?

Mae Ardal Weinidogaeth Bro Padrig yn cynnig cyfleoedd newydd a chyffrous ar gyfer y dyfodol. Mae hon yn ardal ragorol i fyw, gweithio a gweinidogaethu ynddi. Mae'r Ardal Weinidogaeth wedi ymrwymo i ddatblygu ei bywyd mewn ffordd bwrpasol, llawn egni. Mae cyfleoedd parod i ymgysylltu â theuluoedd ac ysgolion ar draws yr Ardal Weinidogaeth. Mae grwpiau a chymdeithasau cymunedol a gweithgareddau'r eglwys yn cynnig cyfleoedd i gysylltu â phobl yn fugeiliol ac yn strategol i offeiriad sy'n cymysgu'n dda. Fel ardal o gymunedau bach gwledig ac arfordirol, y mae rhai ohonynt 20 munud i ffwrdd mewn car o ffordd ddeuol yr A55, mae hon yn ardal ardderchog i rywun sydd eisiau ymgartrefu ym mywyd y gymuned. Gall fod gan y person hwnnw flynyddoedd o brofiad gweinidogol, neu gall fod wedi'i ordeinio'n fwy diweddar.

Mae'r newidiadau deinamig yn sgil datblygiadau cymdeithasol ac economaidd a datblygiad twristiaeth ar draws yr ardal yn gwahodd ffurfiau creadigol ar addoli ac ymgysylltu.



# *Proses Ymgeisio*

Anfonwch eich CV ynghyd â llythyr cais at Archddiacon John Harvey,
johnharvey@churchinwales.org.uk

Dylai eich CV amlinellu eich cymwysterau addysgol a hyfforddiant, a'ch hanes cyflogaeth.

Yn eich llythyr cais dylech, mewn dim mwy na dwy ochr A4, ddisgrifio yr hyn yr sy'n eich denu at y swydd, a pherthnasu eich sgiliau a phrofiad i fanyleb y person.

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd am gyfweliad.

**Am sgwrs anffurfiol am yr apwyntiad**

Egob David Morris
07930 283833
davidmorris@churchinwales.org.uk

Archddiacon John Harvey
07534 549682
johnharvey@churchinwales.org.uk

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

bangor.eglwysyngnghymru.org.uk